


# Tueddiadau Cyfranogiad ar gyfer 2019: Ein Rhagfynegiadau

**Mae sefydliadau'n gyson yn awyddus i ail-ddyfeisio cyfranogiad i'w wneud yn fwy cynrychiadol a chynhwysol ... Ni fydd 2019 yn wahanol. Felly dyma ein rhagfynegiadau ar gyfer tueddiadau cyfranogiad yn 2019.**



## Allgymorth Profiadol

Bydd ymgysylltu ac ymgynghori â phobl allan yn eu cymunedau yn parhau i ddatblygu ond yn symud o'r pethau arferol fel stondinau arddangos, holiaduron ar glipfyrddau, a dotiau gludiog! Mae pobl yn gynyddol yn cael eu denu at brofiadau, felly mae gweithgareddau ymgysylltu angen meddwl am sut y maent yn cynnig y dull hwn i ddenu ystod amrywiol o bobl i gasglu barn a safbwynt cymunedol. Mae ymgynghori trwy ddefnyddio rhithwir, sinemâu symudol, crefft, gweithgareddau awyr agored, ffair fwyd, gwneud ffilmiau, teithiau drama a cherdded yn esiamplau o syniadau posib.



## Technoleg Ymgysylltu

Nid yw ein 'ffonau' mwyach yn ddim ond ffonau, ond yn declyn a ddefnyddiwn i ryngweithio, cael newyddion, straeon ac adloniant. Mae technoleg ymgysylltu newydd yn rhoi'r gallu i ehangu llais tenantiaid wrth lunio gwasanaethau a chymunedau. Mae rhai cymdeithasau tai yn treialu ap Alexa ar gyfer ymgysylltiad tenantiaid ac eraill yn profi rhith-wirionedd er mwyn edrych ar eiddo gwag ayb. Rydym yn dal i aros am ymgynghoriadau ar ffurf 'Tinder' h.y. sweipiwch i'r dde os ydych chi'n hoffi'r syniad hwn! Hefyd, eleni byddwn yn gweld cynnydd go iawn i alluogi'r iaith Gymraeg i gael ei ddefnyddio mewn Deallusrwydd Artiffisial. Mae hyn mor bwysig i sicrhau bod y Gymraeg yn aros wrth wraidd y cartref a'r gwasanaethau tai.



## Mewnwelediad Aml-Sianel

Bydd defnyddio data a mewnwelediad cwsmeriaid yn symud ymlaen ar gyflymder, megis datblygu Cymunedau Arolwg Ar-lein. Gellir defnyddio'r dull hwn i ategu opsiynau eraill o ymgysylltu megis cyswllt wyneb yn wyneb a grwpiau tenantiaid e.e. Fforymau, Paneli a Grwpiau Craffu. Bydd cael ystod o opsiynau yn gwella effaith cyfranogiad tenantiaid ac yn darparu mewnwelediad mwy cynrychiadol a llym.

# Tueddiadau Cyfranogiad ar gyfer 2019: ein rhagfynegiadau

## Cyfranogiad yn Seiliedig ar Rinweddau a Sgiliau

Gall manteisio ar sgiliau, rhinweddau a phrofiad pobl fod o fudd mawr iddynt ar lefel bersonol ac i'w cymuned. Felly, byddwn yn gweld math o ddull sy'n seiliedig ar rinweddau a sgiliau yn cael ei ddefnyddio fwyfwy wrth gynllunio a darparu gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned. Bydd cynnwys tenantiaid a chymunedau mewn gweithgareddau a digwyddiadau ymgysylltu yn darparu cyfleoedd newydd i rannu eu rhinweddau a'u sgiliau. Gall hyn gynnwys: gweithredu fel 'gohebwyr cymunedol' yn casglu mewnwelediad lleol; gweithredu fel y rhai sydd yn cyfarfod ac yn cyfarch mewn digwyddiadau ymgysylltu; creu a dylunio'r deunyddiau marchnata; ffilmio neu dynnu lluniau mewn digwyddiadau; cynnal stondin rhannu sgiliau.

## Hwb ('Nudge') i Gyfranogi

Byddwn yn cychwyn gweld sefydliadau yn profi dulliau theori 'Nudge' i annog mwy o denantiaid i gymryd rhan trwy ddefnyddio'r hyn y maent yn ei wybod am sut y mae pobl yn ymddwyn ac yn meddwl. Yn lle gofyn yn gyson i denantiaid i gymryd rhan gyda 'galwadau i weithredu' rheolaidd, byddem yn gweld marchnata mwy effeithiol a fydd yn annog ac yn rhoi hwb i bobl gymryd rhan. Bydd hyn yn ehangu cyfranogiad ac yn ei wneud yn fwy cynrychioladol.

## 'Micro-Gyfranogiad'

Bydd newidiadau technolegol a phwysau amser yn tanseilio tuedd tuag at gyfleoedd cyfranogi tymor byr sy'n gofyn am ychydig iawn o ymrwymiad amser ac sy'n hawdd eu dechrau a'u cwblhau. Gall gofyn i breswylwyr roi 15-20 munud o'u hamser ar sail reolaidd, sy'n cyfateb i'w diddordebau, helpu i ddenu pobl brysur. Gall hyn gynnwys: adolygu dogfennau neu gyhoeddiadau adref; helpu gyda phrofi neu adolygu gwefannau; bwydo barn a syniadau i mewn i waith craffu; ac adolygiadau gwasanaeth.

TPAS CYMRU
You matter | Ti'n cyfri

2019